

# OWEN, ROBERT ('Eryron Gwyllt Walia'; 1803 - 1870), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a bardd

**Enw:** Robert Owen  
**Ffugenw:** Eryron Gwyllt Walia  
**Dyddiad geni:** 1803  
**Dyddiad marw:** 1870  
**Priod:** Ellen Owen (née Owen)  
**Rhiant:** Anne Owen (née Roberts)  
**Rhiant:** Griffith Owen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a bardd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth  
**Awdur:** John Ellis Caerwyn Williams

Ganwyd 3 Ebrill 1803, yn Ffridd-bala-deulyn, yn agos i Dalsarn, Dyffryn Nantlle, Sir Gaernarfon, yn fab i Griffith Owen, brodor o'r Waunfawr, ac Anne Owen, gynt Roberts, merch y Ffridd a chwaer y pregethwyr [Robert Roberts](#), Clynog, a [John Roberts](#), Llangwm. Aeth ei rhieni i fyw i Gaernarfon yn fuan wedi ei eni ef, ac yno y'i maged. Derbyniodd addysg well na'r cyffredin yn ysgol y [Parch. Evan Richardson](#), ac wedyn fe'i prentisiwyd yn baentiwr, a dilynodd alwedigaeth paentiwr hyd oni ymneilltuodd tua phum mlynedd cyn ei farw. Yn llanc yng Nghaernarfon profodd ddylanwad 'Diwygiad Beddgelert' (1817-8), a gwnaeth [John Elias](#) argraff ddofn ar ei feddwl. Tua'r un amser dechreuodd ymddiddori mewn llenyddiaeth; cymdeithasodd â rhai o feirdd y gymdogaeth a chafodd gyfarwyddyd a chefnogaeth gan y prifardd '[Dewi Wyn](#).' Yn 21 oed (tua diwedd mis Ebrill 1824) aeth i Lundain. Ymaelododd yng nghapel Jewin Crescent a daeth i'r amlwg fel athro yn yr ysgol Sul ac wedyn fel arolygwr. Yn 1832 priododd ag Ellen Owen; chwaer iddi hi oedd gwraig [Griffith Davies](#), yr 'actuary' enwog. Ordeiniwyd ef yng nghymdeithasfa Treffynnon yn 1859. Ymddengys ei fod yn enwog am ei anerchiadau. Ei hynodrwydd oedd ei wybodaeth drylwyr o'r *Beibl* a'i allu i'w chymhwyso, a hefyd ei ddiddordeb yn niwinyddiaeth y Pwiritaniaid. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth yn y mesurau caeth a rhydd, y rhan fwyaf o natur grefyddol. Gwrthododd am beth amser fynd i berthyn i Gymdeithas y Gwyneddigion oherwydd ei hawyrgylch anghrefyddol; ond yn 1833 ef oedd ei 'bardd' swyddogol. Am yr un rheswm nid âi i eisteddfodau er ei fod yn cystadlu ynddynt weithiau. Un o'i gyfeillion llenyddol oedd [Thomas Edwards](#) ('Caerfallwch'). Bu farw 22 Awst 1870.

## Awdur

Yr Athro John Ellis Caerwyn Williams, (1912 - 1999)

## Ffynonellau

G. Parry, *Cofiant a chasgliad o weithiau barddonol y Parch. Robert Owen, (Eryron Gwyllt Walia), Llundain* (Manchester, 1880)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28360916](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

